Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Chwarae Bumble Bees
# Ysgol Pendref
# Ffordd Gwaenynog
# Dinbych
# LL16 3RU

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2019

## gan

## Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)

## a

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Chwarae Bumble Bees

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Chwarae Bumble Bees |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Tracy Joanne Roberts |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Tracy Joanne Roberts |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2 – 4 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at ddau dymor | 1 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at bum tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener 8:45 – 15:00 yn ystod y tymor yn unig |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad yn gweithredu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Gweithredol y Gymraeg | Nac oes |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 12/05/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 01/03/2013 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 14/03/2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol<br>Mae'r lleoliad yn Ysgol Pendref yn awdurdod lleol Sir Ddinbych. Mae pob un o'r plant yn siarad Saesneg fel eu mamiaith ac nid oes unrhyw blant yn dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith. Y person cofrestredig a'r person â gofal yw Tracy Joanne Roberts. Sefydlwyd Sefydliad Corfforedig Elusennol i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Cyflwynwyd cais i ailgofrestru'r lleoliad yn enw'r Sefydliad Corfforedig Elusennol. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(yn berthnasol yn unig i blant tair a phedair blwydd oed nad ydynt yn derbyn addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Barn** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(yn berthnasol yn unig i blant tair a phedair blwydd oed nad ydynt yn derbyn addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Gwella’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion

A2 Cynllunio ar gyfer datblygiad ffocysedig medrau disgyblion yn yr ardal awyr agored

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae llais gan bron bob un o’r plant ac maent yn fodlon mynegi eu hunain a’u hanghenion.  Maent yn symud o gwmpas yn rhwydd, gan ddewis ble maent eisiau chwarae a pha weithgareddau i gymryd rhan ynddynt.  Mae bron pob un o’r plant yn mynegi barn a ffafriaethau am eu gofal a’u dysgu yn hyderus.  Er enghraifft, mae plant yn dewis o blith amrywiaeth o fwydydd, ac yn penderfynu pryd mae arnynt eisiau eu byrbryd.  Mae bron pob un o’r plant yn cyfathrebu’n hyderus gyda staff a phlant eraill.  Maent yn gwybod y bydd ymarferwyr yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn parchu eu sylwadau.

Mae bron pob un o’r plant yn ymgynefino’n gyflym pan fyddant yn cyrraedd ac maent yn mwynhau mynychu’r lleoliad.  Maent yn hyderus i adael eu rhieni a symud o gwmpas yr amgylchedd.  Mae gan bron bob un o’r plant berthnasoedd agos â staff, sy’n arwain at gynnal llawer o sgyrsiau.  Er enghraifft, mae plant yn rhoi ‘pump uchel’ i staff pan fyddant yn cwblhau tasg neu fel rhan o’u gêm.  Mae plant yn awyddus i rannu gwybodaeth sy’n bwysig iddynt, gan gynnwys storïau am eu teuluoedd a’u ffrindiau.  Mae pob un o’r plant yn chwarae gyda’i gilydd yn hapus gan ffurfio cyfeillgarwch â’i gilydd.  Er enghraifft, mae plentyn yn chwilio am blentyn arall y tu allan am fod arnynt eisiau chwarae gyda’i gilydd.

Mae bron pob un o’r plant yn rhyngweithio’n gadarnhaol â’i gilydd.  Maent yn dysgu parchu a deall anghenion eu cyfoedion.  Maent yn cydweithredu ac yn rhannu’n dda gyda’r cymorth lleiaf gan staff.  Er enghraifft, mae dau blentyn yn cymryd eu tro i eistedd mewn troli pren ac yn gwthio’i gilydd o gwmpas yr ardal yn yr awyr agored.  Mae bron pob un o’r plant yn ymddwyn yn briodol, gan ddilyn cyfarwyddiadau syml a rheolau’r lleoliad.  Er enghraifft, mae plant yn gwybod mai nifer benodol o blant yn unig sy’n gallu chwarae ym mhob ardal ar unrhyw adeg, ac maent yn aros yn amyneddgar am eu tro.  Mae bron pob un o’r plant yn chwarae a defnyddio’r adnoddau yn briodol.  Maent yn helpu tacluso a rhoi eitemau o’r neilltu pan fyddant wedi gorffen â nhw.

Mae plant yn hapus i gymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau a’r rheiny sy’n galluogi iddynt ddilyn eu diddordebau.  Mae bron pob un o’r plant yn canolbwyntio am gyfnodau sy’n briodol i’w hoedran a’u cyfnod datblygu.  Er enghraifft, wrth gwblhau *collage* o greadur bach o’u dewis nhw, mae plentyn yn canolbwyntio ar y dasg nes ei fod yn fodlon â’r hyn y mae wedi’i greu.  Mae bron pob un o’r plant yn hapus ac yn awyddus i rannu’r hyn y maent yn ei wneud gydag oedolion, gan ddangos eu bod yn mwynhau eu tasgau a’u profiadau dysgu.  Mae bron pob un o’r plant yn defnyddio’r adnoddau sydd eu hangen arnynt i gwblhau tasgau yn annibynnol.  Er enghraifft, mae plentyn yn pigo lafant o’r ardd i ychwanegu at y cymysgedd y mae’n ei wneud yn y gegin fwd.  Mae bron pob un o’r plant yn rhoi

cynnig ar bethau drostynt eu hunain cyn gofyn am gymorth, a'i dderbyn. Er enghraifft, maent yn dewis ac yn arllwys eu diod eu hunain o laeth neu ddŵr yn annibynnol.

**Dysgu (yn berthnasol yn unig i blant tair neu bedair blwydd oed nad ydynt yn derbyn addysg mewn lleoliad a gynhelir): Barn**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw bod nifer y plant tair neu bedair blwydd oed a oedd yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall yn rhy fach i adrodd arnynt, heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda. Maent yn gwybod pa dasgau y mae angen iddynt ymgymryd â nhw, a sut byddant yn cynorthwyo'r plant. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am baratoi'r ystafell ar gyfer cinio a phwy sy'n tacluso ar ôl hynny. Caiff bron pob un o'r ymarferwyr hyfforddiant diogelu cyfoes a phriodol. Maent yn gwybod at bwy i droi a'r broses y dylid ei dilyn os bydd ganddynt bryderon am blentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn dilyn a gweithredu arferion sy'n cynorthwyo plant i fyw bywyd iach. Er enghraifft, maent yn annog a chynorthwyo plant i olchi eu dwylo ar adegau priodol, gan gynnwys cyn bwyta ac ar ôl bod y tu allan. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd i fod yn weithgar a chael awyr iach ar adegau cynlluniedig trwy gydol y dydd. Mae ymarferwyr yn rhoi gweithdrefnau ar waith sy'n cadw'r plant yn ddiogel. Er enghraifft, maent yn cynnal driliau tân yn rheolaidd ac ar adegau gwahanol yn ystod y sesiynau. Mae hyn yn sicrhau bod pob un o'r plant a'r staff yn gwybod y weithdrefn y dylid ei dilyn os bydd rhaid iddynt adael yr adeiladau.

Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithio yn dda ac yn rhoi strategaethau ymddygiad cadarnhaol ar waith, yn unol â pholisi'r lleoliad. Er enghraifft, maent yn lleoli eu hunain ar lefel llygad plentyn ac yn siarad â'r plentyn yn dyner i fynd i'r afael ag unrhyw ymddygiad amhriodol. Mae pob ymarferwr yn defnyddio system ymddygiad cadarnhaol effeithiol y lleoliad. Er enghraifft, maent yn rhoi sticeri i blant pan maent yn garedig, yn gymwynasgar ac yn dangos moesau da, ac ar gyfer cyflawniadau eraill hefyd. Mae ymarferwyr yn fodelau rôl da ar gyfer y plant, gan gyfathrebu â nhw mewn modd pwyllog a chyfeillgar. Maent yn sicrhau bod cyfleoedd buddiol i'r plant fod yn gymdeithasol. Er enghraifft, maent yn eistedd gyda'r plant i gael eu cinio. Mae hyn yn arwain at lawer o gyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau cymdeithasol a chyfathrebu trwy siarad.

Mae ymarferwyr yn darparu adnoddau priodol a gweithgareddau dewis rhydd i ddiwallu anghenion datblygiad unigol plant. Maent yn ymestyn dysgu plant yn effeithiol trwy chwarae. Er enghraifft, mae plentyn yn paru symiau â'r cerdyn rhif cywir. Mae'r ymarferwyr yn ymestyn y gweithgaredd hwn trwy ofyn cwestiynau priodol fel "Pa rif sy'n dod ar ôl 5, ond cyn 7?" Mae ychydig o ymarferwyr yn

defnyddio Cymraeg achlysurol yn effeithiol yn ystod gweithgareddau cynlluniedig a gweithgareddau dewis rhydd i blant. Fodd bynnag, nid yw'r defnydd cyffredinol o'r Gymraeg wedi'i ddatblygu'n ddigonol ar y cyfan.

**Addysgu ac asesu (yn berthnasol yn unig i blant tair neu bedair blwydd oed nad ydynt yn derbyn addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae pob ymarferwr yn ymgysylltu'n effeithiol â phlant i gefnogi eu dysgu a'u datblygiad cymdeithasol. Maent yn ymestyn meddwl a medrau plant yn dda trwy sbardunau a chwestiynau meddylgar fel rhan o dasgau wedi'u harwain gan oedolion a thasgau annibynnol. Er enghraifft, maent yn ymestyn geirfa fathemategol plant trwy ofyn pa fwced yw'r ysgafnaf neu'r trymaf wrth iddynt arbrofi â chlorian yn yr hambwrdd tywod. Mae ymarferwyr yn sensitif at ddisgyblion, ac yn ymateb i'w hanghenion yn ystyriol. Maent yn annog disgyblion i fod yn garedig i'w gilydd a datblygu eu hymwybyddiaeth foesol a chymdeithasol, er enghraifft trwy rannu adnoddau a chymryd eu tro. Maent yn cynnal amgylchedd dysgu prysur a phwrpasol sy'n annog cynnydd da o ran datblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a dysgu annibynnol plant.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth effeithiol o arfer y cyfnod sylfaen y maent yn ei chymhwyso'n dda wrth gynllunio a chyflwyno profiadau dysgu. Mae cynllunio yn cysylltu'n dda â gofynion fframwaith y cyfnod sylfaen ac yn meithrin medrau plant yn systematig. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn cynllunio'n ddigonol i blant fynd at yr adran awyr agored, a dysgu yno, yn annibynnol.

Mae ymarferwyr yn defnyddio eu hasesiad o gynnydd plant yn effeithiol i gynllunio dysgu yn y dyfodol. Maent yn rhoi sylw manwl i ymgysylltiad plant â gweithgareddau, a llwyddiant datblygiad eu medrau. Mae staff yn gwneud nodiadau defnyddiol o'r arsylwadau hyn. Defnyddiant y rhain yn dda i lywio eu trafodaethau am gynnydd plant a chynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol. Mae'r lleoliad yn trosglwyddo gwybodaeth fuddiol i'r ysgol gynradd sy'n derbyn y plant i'w galluogi i gynllunio ar gyfer anghenion penodol plant o ddechrau eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae ymarferwyr yn cyflwyno gweithgareddau sy'n ymgysylltu â phlant ac yn ennyn eu diddordeb yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae plant yn magu brwdfrydedd wrth chwilio am ffyrdd o ryddhau creaduriaid bach sydd wedi'u rhewi mewn blociau iâ. Maent yn gofyn safbwyntiau plant ar beth yr hoffent ei ddysgu'n rheolaidd, a sut. Er enghraifft, maent yn gofyn i blant am eu syniadau ar ddechrau testun ac yn ymgorffori'r rhain yn eu cynllunio yn ddychmygus. Maent yn arddangos awgrymiadau plant yn amlwg o fewn y lleoliad, ac yn ychwanegu enghreifftiau o'u gwaith a'u myfyrdodau wrth i'r testun fynd rhagddo. Mae hyn yn ffordd effeithiol i ymarferwyr ddangos i blant eu bod yn gwerthfawrogi eu cyfraniadau.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd da i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Yn benodol, mae ymarferwyr yn fedrus o ran cefnogi datblygiad medrau cyfathrebu plant. Mae'r lleoliad yn gyfoethog o ran iaith, ac mae ymarferwyr yn

annog plant yn gyson i ddatblygu eu geirfa trwy siarad. Maent yn nodi cyfleoedd da i blant wella eu geirfa a'u medrau mathemategol. Er enghraifft, datblygant eu dealltwriaeth o rif yn dda wrth gyfrif siapiau a'u paru â'r digidau cywir. Mae ymarferwyr yn darparu'n briodol er mwyn i blant wella eu dealltwriaeth a'u defnydd o TGCh trwy ystod o adnoddau addas, fel camerâu digidol, cyfrifiaduron sgrin gyffwrdd a ffonau cludadwy.

O bryd i'w gilydd, mae ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg fel rhan o osod arferion, ac yn ystod ychydig iawn o weithgareddau. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid oes digon o gyfleoedd i blant ymateb i'r Gymraeg a datblygu eu medrau eu hunain wrth ei defnyddio. Ceir cyfleoedd priodol i blant ddysgu am ddiwylliant a threftadaeth Cymru, er enghraifft trwy greu cardiau i ddathlu Dydd Santes Dwynwen.

Mae'r lleoliad yn darparu ystod addas o brofiadau dysgu i feithrin datblygiad ysbrydol a diwylliannol plant. Er enghraifft, maent yn datblygu eu hymwybyddiaeth ofodol wrth wrando ar gerddoriaeth dawel, gan aros yn llonydd ac arafu eu hanadlu. Mae dathlu gwyliau fel Holi a'r Flwyddyn Newydd Dsieineaidd, yn helpu datblygu ymwybyddiaeth ddiwylliannol plant.

**Yr Amgylchedd: Da**

Mae ymarferwyr yn cynnal yr amgylchedd dysgu'n dda, gan ddarparu awyrgylch cynnes, croesawgar a chyfeillgar ar gyfer plant. Mae arweinwyr yn rhoi arferion iechyd a diogelwch cadarnhaol ar waith. Maent yn sicrhau bod pob un o'r ymarferwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a bod y lleoliad yn amgylchedd dysgu diogel. Maent yn cynnal cofnodion effeithiol o ymwelwyr, plant a staff i sicrhau eu bod yn gwybod ble mae pawb os bydd argyfwng. Maent yn cwblhau asesiadau risg rheolaidd ar yr holl ardaloedd a ddefnyddir gan y plant, ac yn diweddaru'r rhain yn rheolaidd. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cwblhau arferion glanhau a gwiriadau dyddiol cyn i'r plant gyrraedd y lleoliad, gan sicrhau nad oes unrhyw beryglon newydd. Mae'r fynedfa i'r lleoliad yn ddiogel ac yn cael ei rheoli, gan atal unrhyw fynediad heb awdurdod.

Mae'r amgylchedd yn cynnwys prif ystafell ddosbarth sydd â mynediad uniongyrchol i ardal yn yr awyr agored. Mae ymarferwyr yn trefnu'r ystafell yn effeithiol i adlewyrchu athroniaeth y cyfnod sylfaen. Maent yn gwella meysydd dysgu'n dda i adlewyrchu'r testun presennol, er enghraifft trwy osod pryfed plastig sydd wedi'u rhewi mewn blociau iâ yn yr hambwrdd dŵr fel rhan o'u testun creaduriaid bach. Mae pob ardal yn atyniadol ac yn rhoi cyfleoedd ysgogol i blant ddatblygu eu medrau.

Mae'r ystafell ddosbarth yn yr awyr agored yn groesawgar ac yn darparu llawer o ardaloedd gwahanol i blant eu defnyddio, fel llwyfan, cegin fwd a phentwr o deiars. Mae plant yn mwynhau'r rhain, er enghraifft defnyddio'r llwyfan i gynnal sioe neu ddringo dros y teiars. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddefnyddio'r ardal hon. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio'n ddigonol ar

gyfer ei defnyddio i gefnogi datblygiad ffocysedig medrau plant fel rhan o'u dysgu annibynnol.

Mae ansawdd adnoddau a chyfleusterau yn dda ac yn addas ar gyfer oedrannau a chamau datblygu'r plant. Mae'r rhain yn cynnwys adnoddau i ddatblygu ymwybyddiaeth plant o'u diwylliannau eu hunain a diwylliannau eraill ac adnoddau wedi eu creu o ddeunyddiau naturiol, fel moch coed, cerrig a chregyn yn yr ardal ymchwilio. Mae dodrefn ar lefel briodol o isel, sy'n galluogi plant i'w defnyddio a mynd atynt yn annibynnol. Mae toiledau'n addas ar gyfer plant a cheir mynediad hawdd atynt o'r brif ystafell.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad, yn seiliedig ar greu amgylchedd croesawgar lle mae pob un o'r plant yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae pob un o'r staff yn rhannu'r weledigaeth hon ac yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i sicrhau'r deilliannau gorau ar gyfer plant. Mae'r arweinydd yn hysbysu'r pwyllgor rheoli yn dda am ddatblygiadau, gan gynnwys unrhyw faterion penodol yn ymwneud â phlant neu staff. Mae'r pwyllgor rheoli a ffurfiwyd yn ddiweddar yn hynod gefnogol i waith y lleoliad, ac mae aelodau'n ymgymryd â'u rolau yn gyfrifol. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae eu rhan mewn barnu effeithiolrwydd gwaith y lleoliad a chynllunio ar gyfer gwelliannau. Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn rhoi darlun cywir o'r hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig. Ceir gweithdrefnau effeithiol i sicrhau diogelwch pob un o'r plant a'r staff, ac mae arweinwyr yn adolygu'r rhain yn rheolaidd.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn gweithio'n dda gydag athro cymorth yr awdurdod lleol i nodi'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn y lleoliad. Maent yn adolygu effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn gyson, ac yn cynllunio'n llwyddiannus i wneud gwelliannau lle mae angen. Er enghraifft, fe wnaethant nodi'r angen i wella ansawdd y cyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau trwy chwarae rôl dychmygus. O ganlyniad, aeth y lleoliad ati i addasu ei hardal chwarae rôl, ac erbyn hyn, mae plant yn manteisio ar yr ardal yn amlach i ddatblygu eu medrau cymdeithasol a chyfathrebu.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod cymhareb dda o staff â chymwysterau addas i blant. Maent yn eu defnyddio'n dda i ddiwallu anghenion plant. Mae arweinwyr yn cynnal systemau effeithiol ar gyfer arfarnu a datblygu staff. Mae'r rhain yn rhoi cyfleoedd buddiol i bob un o'r staff fyfyrio ar eu harfer, nodi meysydd i'w gwella ac unrhyw anghenion hyfforddi cysylltiedig. Mae pob un o'r staff yn glir ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran cynnal amgylchedd dysgu o ansawdd uchel ar gyfer plant. Mae'r arweinydd yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion yn ymwneud â thanberfformio yn llwyddiannus ac yn sensitif. Mae gan y lleoliad brosesau diogel ac effeithiol ar gyfer recriwtio a defnyddio staff.

Mae arweinwyr yn gweithio i gynnal perthnasoedd effeithiol â rhieni. Maent yn eu hysbysu'n dda am y gweithgareddau y mae plant yn ymgymryd â nhw, a'r cynnydd a wnânt. Mae'r ffaith fod y lleoliad yn fach yn galluogi ymarferwyr i siarad â rhieni bob dydd. Maent yn darparu adroddiadau manwl ar gynnydd mewn medrau trwy asesiadau ar ddechrau a diwedd y ddarpariaeth tair blynedd. Mae'r lleoliad yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i gefnogi dysgu a lles y disgyblion. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cysylltu'n dda â therapyddion lleferydd ac iaith i gynorthwyo disgyblion ag anawsterau cyfathrebu penodol. Mae gan y lleoliad bartneriaeth gref â'i ysgolion lletyol, sy'n sicrhau cyfnod pontio esmwyth ar gyfer plant i addysg statudol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefannau AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen gwelliant sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 21/05/2019